

FEL RHIANT NEU WARCHODWR OES GENNYCH HAWL I BRYDAU YSGOL AM DDIM AR GYFER EICH PLANT SY'N MYNYCHU YSGOL O FEWN BWRDEISTREF SIROL CONWY?

ALLWCH CHI ARBED £450 Y FLWYDDYN AR GYFER BOB PLENTYN PE BYDDECH YN YMGEISIO A CHYMHWYSO?

Er mwyn cymhwyso ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim ar gyfer eich plentyn/plant, rhaid i chi fod yn derbyn un o'r taliadau cymorth canlynol -

- Credyd Cynhwysol heb unrhyw enillion*
- Credyd cynhwysol gydag enillion blynyddol net o ddim mwy na £7400 (Ebrill, 2019)*
- Cymhorthdal Incwm*
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm*
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad ydych yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith ac nad yw incwm blynyddol eich aelwyd, yn unol ag asesiad CThEM, yn uwch na £16,190
- Cefnogaeth o dan Rhan VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.
- Efen Warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth Cysylltiedig ag Incwm*
- Credyd Treth Gwaith parhaus – y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos arall ar ôl iddynt beidio â bod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol Credyd Treth Gwaith



(*Mae disgyblion sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Cynhwysol drwy eu hawl eu hunain hefyd yn gymwys)

Os byddwch yn dod yn gymwys i gael Pryd Ysgol Am Ddim ar gyfer un o'ch plant, byddwch yn dal yn gallu hawlio ar gyfer y plentyn hwnnw tan fis Rhagfyr, 2023, hyd yn oed os yw eich amgylchiadau'n newid. Bydd angen i chi ein hysbysu ni fodd bynnag os yw eich plentyn yn gadael, neu'n newid ysgol cyn y dyddiad hwnnw.

Ar gyfer bob disgybl sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi'r Ysgol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r plant hynny. Felly os oes gennych hawl, ymgeisiwch nawr.

Os dymunech wneud cais, argraffwch a chwblhewch y Ffurflen Gais Prydau Ysgol am Ddim ar

<http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Benefits-and-grants/Education-Benefits/Free-School-Meals-in-Conwy-County-Borough.aspx> a'i anfon at -

Gwasanaethau Asesu Refeniw a Budd-Daliadau

Blwch Post 1

Conwy

LL30 9GN

Os ydych am dderbyn ffurflen bapur, neu angen unrhyw gymorth wrth gwblhau'r ffurflen, neu ag unrhyw gwestiynau eraill, ewch i <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Benefits-and-grants/Revenues-and-Benefits-Customer-Services.aspx>.



Sir Conwy, yr amgylchedd iawn ar gyfer cymorth a chefnogaeth

Conwy County, the right environment for help and support